# Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018

**2018 dccc 3**

*Cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE*

**3 Pŵer i ddargadw cyfraith uniongyrchol yr UE**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig sy'n cyfateb i gyfraith uniongyrchol yr UE at ddiben parhau â'i gweithrediad, i'r graddau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol, ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

(2) Wrth wneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru geisio parhau â'r hawliau, y pwerau, yr atebolrwyddau, y rhwymedigaethau, y cyfyngiadau, y rhwymedïau a'r gweithdrefnau a gydnabyddir ac sydd ar gael yng nghyfraith Cymru a Lloegr yn rhinwedd adran 2(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ar adeg gwneud y rheoliadau.

(3) Yn yr adran hon, ystyr "cyfraith uniongyrchol yr UE" yw—

(a) darpariaeth yng Nghytuniadau'r UE sy'n cael effaith uniongyrchol yng nghyfraith Cymru a Lloegr yn rhinwedd adran 2(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 i'r graddau nad yw ei heffaith yn cael ei hatgynhyrchu mewn deddfiad sy'n gymwys o ran Cymru ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym (pa un a yw'r deddfiad yn rhychwantu tiriogaethau eraill neu'n gymwys iddynt ai peidio);

(b) darpariaeth mewn unrhyw reoliad gan yr UE, penderfyniad gan yr UE neu ddarn o ddeddfwriaeth drydyddol yr UE i'r graddau nad yw ei heffaith yn cael ei hatgynhyrchu mewn deddfiad sy'n gymwys o ran Cymru ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym (pa un a yw'r deddfiad yn rhychwantu tiriogaethau eraill neu'n gymwys iddynt ai peidio);

(c) unrhyw Atodiad i gytundeb yr AEE, i'r graddau—

(i) y mae'n cyfeirio at unrhyw beth sy'n dod o fewn paragraff (b) neu'n cynnwys cyfaddasiadau o unrhyw beth o'r fath, a

(ii) nad yw ei effaith yn cael ei hatgynhyrchu mewn deddfiad sy'n gymwys o ran Cymru ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym (pa un a yw'r deddfiad yn rhychwantu tiriogaethau eraill neu'n gymwys iddynt ai peidio);

(d) Protocol 1 i gytundeb yr AEE (sy'n cynnwys cyfaddasiadau llorweddol sy'n gymwys mewn perthynas ag offerynnau gan yr UE y cyfeirir atynt yn yr Atodiadau i'r cytundeb hwnnw).

(4) Wrth wneud darpariaeth sy'n cyfateb i gyfraith uniongyrchol yr UE, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer (ymhlith pethau eraill)—

(a) i beidio â chynnwys unrhyw beth yng nghyfraith uniongyrchol yr UE na fydd ganddo unrhyw gymhwysiad ymarferol o ran Cymru neu unrhyw ran o Gymru neu a fydd fel arall yn ddiangen neu'n sylweddol ddiangen;

(b) i beidio â chynnwys yng nghyfraith uniongyrchol yr UE swyddogaethau endidau o'r UE, neu swyddogaethau mewn perthynas ag endidau o'r UE, na fydd ganddynt swyddogaethau mwyach yn y cyswllt hwnnw o dan gyfraith yr UE mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig neu unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig;

(c) i beidio â chynnwys darpariaeth ar gyfer trefniadau cilyddol, neu mewn cysylltiad â threfniadau cilyddol, rhwng—

(i) y Deyrnas Unedig neu unrhyw ran ohoni neu awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, a

(ii) yr UE, endid o'r UE, Aelod-wladwriaeth neu awdurdod cyhoeddus mewn Aelod-wladwriaeth,

na fyddant yn bodoli mwyach neu na fyddant yn briodol mwyach;

(d) i beidio â chynnwys darpariaeth ar gyfer trefniadau eraill neu mewn cysylltiad â threfniadau eraill—

(i) sy'n ymwneud â'r UE, endid o'r UE, Aelod-wladwriaeth neu awdurdod cyhoeddus mewn Aelod-wladwriaeth, neu

(ii) sydd fel arall yn ddibynnol ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r UE,

ac na fyddant yn bodoli mwyach neu na fyddant yn briodol mwyach;

(e) i beidio â chynnwys darpariaeth ar gyfer unrhyw drefniadau cilyddol neu unrhyw drefniadau eraill, neu mewn cysylltiad ag unrhyw drefniadau cilyddol neu unrhyw drefniadau eraill, nad ydynt yn dod o fewn paragraff (c) neu (d) ac na fyddant yn bodoli mwyach, neu na fyddant yn briodol mwyach, oherwydd i'r Deyrnas Unedig beidio â bod yn barti i unrhyw un neu ragor o Gytuniadau'r UE;

(f) i ddileu cyfeiriadau at yr UE yng nghyfraith uniongyrchol yr UE na fyddant yn briodol mwyach;

(g) i ddarparu i swyddogaethau endidau o'r UE neu awdurdodau cyhoeddus mewn Aelod-wladwriaethau sydd yng nghyfraith uniongyrchol yr UE (gan gynnwys gwneud offeryn o natur ddeddfwriaethol neu ddarparu cyllid) fod—

(i) yn arferadwy gan awdurdod cyhoeddus (pa un a yw newydd ei sefydlu neu a yw wedi ei sefydlu at y diben ai peidio), neu

(ii) yn absennol neu'n wahanol mewn darpariaeth a wneir gan y rheoliadau;

(h) i ddarparu ar gyfer sefydlu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni'r swyddogaethau y darperir ar eu cyfer gan reoliadau o dan yr adran hon;

(i) i addasu deddfiad.

(5) Ond ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon—

(a) gosod na chynyddu trethiant;
(b) gwneud darpariaeth ôl-weithredol;
(c) creu trosedd berthnasol;
(d) rhoi swyddogaeth i un o Weinidogion y Goron na gosod swyddogaeth arno;
(e) dileu nac addasu swyddogaeth cyn cychwyn un o Weinidogion y Goron oni bai bod gwneud hynny yn gysylltiedig â darpariaeth arall sydd wedi ei chynnwys yn y rheoliadau neu'n ganlyniadol iddi.

(6) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon—
(a) cael eu gwneud cyn y diwrnod ymadael, a
(b) peidio â dod i rym cyn y diwrnod ymadael.